

Un Llais Cymru



One Voice Wales

Croeso i'r - Welcome to the

E-Bwletin - E-Bulletin

Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

Un Llais Cymru



One Voice Wales



Ennilwyr Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru
One Voice Wales National Awards Winners

Fydd adroddiad llawn allan yn fuan /A full report will be issued shortly



**Menter
Llywodraethu**

Cyngor Cymuned Pontypwl - Pontypool
Community Council a Cyngor Tref Blaenafon -
Blaenavon Town Council

Governance Initiative

**Defnydd Gorau o
Adnoddau Digidol**

Cyngor Cymuned Rhosili - Rhossili Community
Council

**Best Use of Digital
Resources**

**Menter
Cynladwyedd**

Cyngor Tref Caerfyrddin - Carmarthen Town
Council and Cyngor Cymuned y Mwmbwls -
Mumbles Community Council

Sustainability Project

**Prosiect
Amgylcheddol**

Cyngor Cymuned Y Mwmbwls - Mumbles
Community Council

**Environmental
Project**

**Menter Treftadaeth
a Diwylliant**

Cyngor Cymuned Bedwas Community Council

**Heritage and Culture
Initiative**

Menter Twristiaeth

Cyngor Cymuned Cegidfa -
Guilsfield Community Council

Best Tourism Initiative

**Menter Ymgysylltu
Cymunedol**

Cyngor Tref Blaenafon
Blaenavon Town Council

**Community
Engagement Initiative**

**Menter Ymgysylltu
Ieuenctid**

Cyngor Tref Y Wyddgrug - Mold Town
Council & Cyngor Cymuned Pontypwl -
Pontypool Community Council

**Youth Engagement
Initiative**

Menter Pobl Hŷn

Cyngor Cymuned Y Mwmbwls - Mumbles
Community Council

**Older Persons
Initiative**

**Menter Datganoli
Gwasanaethau neu
Asedau**

Cyngor Cymuned Euan Community
Council

**Devolution of Service
or Asset Project**

**Y Fenter Orau i fynd
i'r afael á'r Argyfwng
Costau Byw**

Cyngor Cymuned Y Mwmbwls - Mumbles
Community Council

**Best Initiative
addressing the Cost of
Living Crisis**

**Gwobr Caerwyn
Roberts -
Gwasanaeth Gorau
gan Cyngor Lleol
2025**

Cyngor Cymuned Cegidfa -
Guilsfield Community Council
& Cyngor Cymuned Y Mwmbwls - Mumbles
Community Council

**Caerwyn Roberts Best
Local Council Service
of the Year award**

ARBEDIWCH Y DYDDIAD

SAVE THE DATE

**DIGWYDDIAD AR Y CYD RHWNG UN LLAIS
CYMRU/SLCC ar FFRAMWEITHIAU
MOESGOL YNG NGHYMRU A LLOEGR –
Dydd Mercher 14 Mai 2025 – ARCHEBWCH
EICH LLE**

**JOINT ONE VOICE WALES/SLCC EVENT on
ETHICAL FRAMEWORKS IN ENGLAND and
WALES– Wednesday 14 May 2025 – BOOK
YOUR PLACE**

**Cynhelir Cynhadledd Arfer Arloesol 2025 ar 2
Gorffennaf**

**Innovative Practice Conference will be held on
2 July 2025**

**Cynhadledd Genedlaethol 2025 ar 1 Hydref
2025**

**2025 National Conference will be held on 1
October 2025**

Grant Ymgysylltu Democrataidd Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o lansio ei Grant Ymgysylltu Democrataidd am dair blynedd arall gyda £400,000 ar gael i gefnogi prosiectau ym mlwyddyn ariannol 2025-26, hyd at ddiwedd 2027-28.

Nod y grant yw cefnogi awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithio yng Nghymru i ddilyn dull arloesol o ymgysylltu â'r rhai sydd fel arfer wedi'u tangynrychioli yn ein democratiaeth. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- pobl ifanc,
- pobl anabl,
- pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is neu'r rhai sy'n ddi-waith hirdymor,
- dinasyddion nad ydynt yn y DU,
- pobl o grwpiau lleiafrifoedd-ethnig.

Bydd y grant yn helpu sefydliadau a ariennir i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu hymgysylltu, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gan roi'r offer iddynt wneud i'w llais gael ei glywed ac i gael effaith gadarnhaol ar Gymru o'u cwmpas. Mae'r ffenestr ymgeisio ar gyfer ceisiadau dros £1000 ar agor nawr ac yn cau ar **9 Mai 2025**. Gellir cyflwyno ceisiadau am lai na £1000 ar unrhyw adeg. Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys dogfennaeth y grant ar gael yma:

<https://www.gov.wales/democratic-engagement-grant>

Welsh Government Democratic Engagement Grant

The Welsh Government is pleased to launch its Democratic Engagement Grant for a further three years with £400,000 being available to support projects in the 2025-26 financial year, through to the end of 2027-28.

The grant aims to support local authorities, third sector, and not-for-profit organisations working in Wales to pursue an innovative approach to engaging those typically under-represented in our democracy. This includes but is not limited to:

- young people,
- disabled people,
- people from lower socio-economic backgrounds or those who are long-term unemployed,
- non-UK nationals,
- people from minority-ethnic groups.

The grant will help funded organisations ensure as many people as possible are engaged, motivated, and empowered to take part in democracy, giving them the tools to make their voice heard and to impact positively on the Wales around them. The application window for applications over £1000 is open now and closing on **9th May 2025**. Applications for under £1000 can be submitted at any time. Further information including the grant documentation can be found here:

<https://www.gov.wales/democratic-engagement-grant>

ARCHWILIO CYMRU

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â sut y mae cyrff cyhoeddus Cymru'n meddwl ac yn gweithredu ar gyfer yr hirdymor. Yn benodol, mae a wnelo â sut y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud yr hyn y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei wneud

Mae Clear Councils Insurance, wedi ysgrifennu erthygl yn archwilio Deddf Terfysgaeth (Diogelu Manfle) 2025, a elwir yn Martyn's Law, deddfwriaeth newydd sylweddol i wella diogelwch y cyhoedd. Gyda Chydsyniad Brenhinol wedi'i roi ar 3 Ebrill 2025, dylai cynghorau plwyf a thref ystyried sut y gall y gyfraith fod yn berthnasol i'w lleoliadau, digwyddiadau a chyfleusterau. Mae'r blog hwn yn cynnwys trosolwg o Gyfraith Martyn a'i dull haenog yn seiliedig ar gapasiti lleoliadau, enghreifftiau allweddol o fannau a reolir gan y cyngor a allai gael eu heffeithio, gan gynnwys neuaddau, parciau a marchnadoedd, canllawiau ymarferol ar asesiadau risg, hyfforddiant staff, cynllunio argyfwng, a mesurau diogelwch, a chamau y gall cynghorau plwyf a thref eu cymryd nawr i baratoi, hyd yn oed cyn eu gweithredu'n llawn.

Mae'r Ganolfan Heneiddio'n Well wedi cyhoeddi llawlyfr newydd, ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio mewn neu gydag awdurdodau lleol sydd eisiau deall beth sy'n gwneud lle yn gyfeillgar i oedran. Gan ddefnyddio fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd, mae'n dangos y gorgyffwrdd rhwng gwahanol feysydd polisi a pham ei bod yn bwysig dod â rhanddeiliaid lleol a gwneuthurwyr penderfyniadau at ei gilydd i wneud newid. Mae'n seiliedig ar arbenigedd academiaidd, tystebau gan bobl hŷn a dysgu gan Rwydwaith Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedrannau'r DU.

WELSH AUDIT

This report is about how Welsh public bodies are thinking and acting for the long term. Specifically, it is about how public bodies are doing what the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (the Act) requires them to do.

Clear Councils Insurance, has written an article exploring the Terrorism (Protection of Premises) Act 2025, known as Martyn's Law, a significant new legislation to improve public safety. With Royal Assent granted on 3 April 2025, parish and town councils should consider how the law may apply to their venues, events, and facilities. This blog features an overview of Martyn's Law and its tiered approach based on venue capacity, key examples of council-managed spaces that may be affected, including halls, parks, and markets, practical guidance on risk assessments, staff training, emergency planning, and security measures, and steps parish and town councils can take now to prepare, even before full implementation.

The Centre for Better Ageing have published a new handbook, for anyone working in or with local authorities who wants to understand what makes a place age-friendly.

Using the World Health Organisation's framework, it shows the overlap between different policy areas and why it's important to bring local stakeholders and decision-makers together to make change. It is based on academic expertise, testimonials from older people and learning from the UK Network of Age-friendly Communities.

Ochr yn ochr â'r llawlyfr mae offeryn mapio (ynghlwm) ar gyfer lleoedd i'w defnyddio i nodi beth sy'n digwydd eisoes yn eu hardal, sut y gall rhanddeiliaid a thrigolion hŷn fod yn rhan ohono, a lle gallai fod bylchau neu gyfleoedd i wneud mwy. Mae'r offeryn mapio yn ddelfrydol i'w ddefnyddio yng nghyfnodau cynnar gwaith sy'n gyfeillgar i oedran, neu wrth adnewyddu cynllun gweithredu sy'n gyfeillgar i oedran. Gellir ei lawrlwytho i'w ddefnyddio fel PDF golygadwy neu ei argraffu i'w gwblhau â llaw.

Mae'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yn cynnal eu Cynhadledd flynyddol Cymru ddydd Mercher 21 Mai yn Venue Cymru yn Llandudno rhwng 10.30am a 3.30pm.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru ar gyfer y Gynhadledd, ewch i Gynhadledd [CTA Cymru 2025 | Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol](#)

Alongside the handbook is a mapping tool for places to use to identify what is already happening in their area, how stakeholders and older residents can be involved, and where there might be gaps or opportunities to do more. The mapping tool is ideal for use in the early stages of age-friendly work, or when refreshing an age-friendly action plan. It can be downloaded for use as an editable PDF or printed for completing by hand.

The Community Transport Association are holding their annual Wales Conference on Wednesday 21st May at Venue Cymru in Llandudno from 10.30 am until 3.30 pm. For more information and details on how to register for the Conference, please visit [CTA Cymru Conference 2025 | Community Transport Association](#)

Gwell Gyda'n Gilydd – Creu rhwydweithiau a chynghrair ar gyfer cymunedau cryfach yng Nghymru
Dydd Mercher 11eg Mehefin, 10:00 – 15:30, Lleoliad: Urban Kitchen, Abertawe.
Cofrestrwch ar gyfer y digwyddiad drwy glicio [yma](#).
Digwyddiad i grwpiau a sefydliadau cymunedol; sefydliadau'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat; partneriaethau a Byrddau. Yn y cyfarfod agored hwn, daw pobl ynghyd i edrych ar atebion ymarferol a chyraeddadwy i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n sefyll yn erbyn cynnydd.

Better Together – Building networks and an alliance for stronger communities in Wales

Wednesday 11th June, 10:00 – 15:30, Venue: Urban Kitchen, Swansea.

Please register for the event by clicking [here](#).

This event is for community groups and organisations; third, public and private sector organisations; partnerships and Boards. In this open meeting we will come together to look at practical and achievable solutions to addressing the barriers that stand in the way of progress.

**Strategaeth Tlodi Plant Cymru - Ymarfer
Mapio Profiad Byw**

Yn unol â gofynion Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i adrodd ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth Tlodi Plant, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys tystiolaeth o brofiadau byw fel rhan o adroddiad cynnydd 2025 sy'n monitro eu cyflawniad.

A fydddech cystal â chynorthwyo eu gwaith drwy gwblhau [Arolwg Grwpiau Profiad Byw](#) i gasglu unrhyw grwpiau profiad byw yr ydych yn ymwybodol ohonynt sydd wedi'u lleoli neu'n gweithio, yng Nghymru

**Child Poverty Strategy for Wales - Lived
Experience Mapping Exercise**

In line with the requirements of the Children and Families (Wales) Measure 2010 to report on progress against the Child Poverty Strategy, Welsh Government have committed to include **lived experience evidence** as part of the 2025 progress report monitoring their delivery.

Please assist their work by completing the [Lived Experience Groups Survey](#) to capture any lived experience groups you are aware of based or working, in Wales.

Gan ein timau arbenigol	From our specialist teams
Tim Cymorth Argyfwng Costau byw	Cost of Living Team
Bioamrywiaeth - Lleoedd Lleol ar gyfer natur	Biodiversity - Local Places for Nature